

# SL(5)248 - Rheoliadau Bwyd a Materion Gwledig (Dirymiadau Amrywiol) 2018

## Cefndir a Diben

---

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu nifer o offerynnau sy'n ymwneud â mynediad i gefn gwlad a chwotâu cynnyrch llaeth yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, yn dilyn yr adroddiad "Hwyluso'r Drefn" yng Nghymru, cytunodd Gweinidogion Cymru i ddarparu fframwaith rheoleiddio priodol ar gyfer ffermwyr yng Nghymru, ac roedd hwn yn cynnwys adolygiad o fiwrocratiaeth o ran y ddeddfwriaeth bresennol. Fel rhan o hyn, cytunodd Gweinidogion Cymru i weithio gyda DEFRA i ddiddymu, lle bo'n briodol, ddeddfwriaeth sy'n gymwys ar draws tiriogaethau Cymru a Lloegr lle mae'r ddeddfwriaeth honno wedi mynd yn ddiangen neu fel arall wedi ei dileu.

## Y weithdrefn

---

Penderfyniad negyddol, cyfansawdd.

## Materion technegol: craffu

---

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### 1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw'r offeryn wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg

Mae'r Rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud fel offeryn cyfansawdd, sy'n golygu bod y Rheoliadau hyn: (a) wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a (b) wedi cael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU.

Rydym yn nodi bod Memoranda Esboniadol i offerynnau cyfansawdd fel arfer yn cyfeirio at ddiffyg fersiwn Gymraeg o'r offeryn (yn aml drwy gyfeirio at esboniad fel "Gan fod yr offeryn cyfansawdd hwn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chan Senedd y DU, ni ystyrir yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei wneud neu ei osod yn ddwyieithog".) Fodd bynnag, nid oes unrhyw gyfeiriad o'r fath yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn.

## Rhinweddau: craffu

---

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgîl gadael yr Undeb Ewropeaidd

---

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Trafodaeth y Pwyllgor

---

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb y Llywodraeth, yn ei gyfarfod ar 17 Medi, a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig mewn perthynas â'r diffyg cyfeiriad yn y Memorandwm Esboniadol o ran pam y gwnaed yr offeryn yn Saesneg yn unig.

